SL(5)485 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("Rheoliadau 2010") i gyfyngu ar y deunyddiau a gaiff ddod yn rhan o wal allanol adeiladau penodol, neu atodiadau penodol i wal allanol adeiladau penodol.

Mae'r diwygiadau'n gymwys i adeiladau sydd o leiaf 18 metr o uchder:

i) lle mae'r adeilad yn cynnwys o leiaf un annedd;
ii) lle mae'r adeilad yn cynnwys ystafell at ddibenion preswyl, gan gynnwys llety myfyrwyr ac ystafelloedd cysgu mewn ysgolion; neu
iii) lle defnyddir yr adeilad fel llety preswyl ar gyfer personau, neu ar gyfer triniaeth, gofal neu gynhaliaeth personau (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2010).

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaethau trosiannol fel na fydd y diwygiadau a wneir gan reoliad 2 yn gymwys pan fydd rhybudd adeiladu neu rybudd cychwynnol wedi'i roi i awdurdod lleol, neu gynlluniau llawn wedi'u hadneuo gydag awdurdod lleol, cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym (13 Ionawr 2020) â'r gwaith adeiladu eisoes wedi'i ddechrau neu wedi'i ddechrau cyn pen wyth wythnos gan ddechrau gyda'r dyddiad hwnnw. Mae'r nodyn esboniadol yn nodi mai dau fis yw'r amserlen, ac nid wyth wythnos, a allai arwain at ddryswch ac ansicrwydd i'r darllenydd.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**.

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn mewn ymateb i dân Tŵr Grenfell ym mis Mehefin 2017, a'r Adolygiad annibynnol wedi hynny o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân gan y Fonesig Judith Hackitt (adroddiad Hackitt). Mewn ymateb i adroddiad Hackitt, gwnaeth y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd ymrwymiad mewn datganiad ysgrifenedig ar 23 Mai 2018, yn amodol ar ymgynghoriad, y byddai Llywodraeth Cymru yn gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy mewn systemau cladin o fewn adeiladau preswyl uchel yng Nghymru. Mae'r memorandwm esboniadol yn cadarnhau bod y Rheoliadau hyn yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw (yn ogystal ag ymestyn y Rheoliadau i rai adeiladau uchel amhreswyl). Mae'r gwaharddiad arfaethedig wedi bod yn destun sawl stori newyddion ar y cyfryngau ac yn destun diddordeb ymhlith y cyhoedd.

1.2 Efallai y galla paragraff 4.4 o'r memorandwm esboniadol achosi dryswch wrth egluro un o'r ffyrdd y gall adeilad â llawr dros 18 metr uwchlaw lefel y ddaear fodloni gofyniad Rheoliadau 2010 ar gyfer gwrthsefyll tân rhag ymledu dros waliau allanol. Mae'n egluro mai un o'r ffyrdd yw trwy fodloni'r canllawiau ym mharagraff 13.7 o Ddogfen Gymeradwy B ar Ddiogelwch Tân, Cyfrol 2 (Adeiladau heblaw Tai Annedd) mewn perthynas â deunyddiau/cynhyrchion inswleiddio. Fodd bynnag, gwnaethom ddeall Dogfen Gymeradwy B (gweler paragraff 13.5) i olygu y'i gwneir yn ofynnol i waliau allanol mewn adeiladau o'r fath fodloni canllawiau mewn perthynas ag arwyneb allanol waliau (paragraff 13.6) a rhwystrau ceudod (paragraff 13.8 a 13.9), yn ogystal â'r canllawiau mewn perthynas â chynhyrchion/deunyddiau inswleiddio.

1.3 Mae'r troednodyn sy'n ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau yn egluro bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 34 o Ddeddf Adeiladu 1984 wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009. Fodd bynnag, credwn fod y swyddogaethau o dan adran 34 wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Pwynt Craffu Technegol:
Anghysondeb rhwng rheoliad 3(1)(b) a pharagraff 7 o'r Nodyn Esboniadol.
Mae'r pwynt adrodd yn cael ei nodi a'i dderbyn mewn egwyddor, ond nodir er hynny nad oes diffyg technegol nac ansicrwydd cyfreithiol gan nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r offeryn. Bydd y Llywodraeth yn mynd ati i gywiro'r pwynt hwn drwy gyfrwng slip cywiro.

Craffu ar Rinweddau:
Pwynt 1 – Cafwyd sawl stori newyddion yn y cyfryngau ynghylch y gwaharddiad arfaethedig ac roedd o ddiddordeb i'r cyhoedd.
Nodir a derbynnir y pwynt adrodd.
Pwynt 2 – Gallai'r memorandwm esboniadol beri dryswch pan fo'n egluro un o'r ffyrdd presennol lle gallai adeilad sydd â llawr sydd dros 18m uwchben lefel y ddaear fodloni Rheoliadau 2010.
Nodir a derbynnir y pwynt adrodd.
Yn unol â'r arfer pan geir newid polisi, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi slip diwygio i Ddogfen a Gymeradwywyd B sydd i'w weld yn https://llyw.cymru/canllawiau-ar-y-rheoliadau-adeiladu-diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-b-cyfrol-1-2-7?_ga=2.16268406.1516156651.1578323834-1403131321.1549464513. Mae'n glir o eiriad y slip diwygio sut y gellir bodloni'r gofynion ar gyfer adeiladau sydd â llawr sydd dros 18m uwchben lefel y ddaear. Yn ymarferol, mae'r diwydiant yn cyfeirio at y Ddogfen a Gymeradwywyd (fel y gellir ei diwygio o bryd i'w gilydd) er mwyn canfod y dulliau cydymffurfio.
Pwynt 3 – Troednodyn anghywir mewn perthynas â throsglwyddo swyddogaethau o dan adran 34 o Ddeddf Adeiladu 1984.

Nid yw'r pwynt adrodd yn cael ei dderbyn. Mae adran 34 yn gysylltiedig â'r pŵer i wneud rheoliadau adeiladu yn adran 1 o Ddeddf Adeiladu 1984 yn ogystal ag i bwerau i wneud cyfarwyddydau neu offerynnau mewn mannau eraill yn y Ddeddf honno. Yn y cyd-destun hwn dibynnir arni i alluogi adran 1 i gael ei defnyddio mewn ffordd arbennig. Mae'r Llywodraeth o'r farn, felly, y digwyddodd y trosglwyddiad perthnasol at ddibenion yr offeryn hwn ar yr adeg y trosglwyddwyd y pwerau o dan adran 1, sef o dan OS 2009/3019. Am resymau hygyrchedd, nid yw'r troednodyn yn egluro'r trosglwyddiad rhannol cynharach at ddibenion nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.